## PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 17 Medi 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd R.Meirion Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd G.O.Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, Ann Griffith, Llinos Medi Huws, Victor Hughes, Peter Rogers<br><br>Aelodau Cyfetholedig (ar gyfer eitem 9)<br><br>Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol)<br>Y Canon Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru) |
| **WRTH LAW:** | Y Prif Weithredwr<br>Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitem 9)<br>Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol (GM) (ar gyfer eitemau 4, 5 ac 8)<br>Rheolydd Rhaglen Moderneiddio Ysgolion (EB) (ar gyfer eitem 9)<br>Rheolydd Gwasanaethau Technegol Tai (DR) (ar gyfer eitem 5)<br>Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO) (ar gyfer eitemau 6 a 7)<br>Rheolydd Opsiynau Tai (AP) (ar gyfer eitem 5)<br>Rheolydd Sgriwtini Dros Dro (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Raymond Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Ieuan Williams (Arweinydd y Cyngor), Alwyn Rowlands (Aelod Portffolio ar gyfer Perfformiad, y Cynllun Corfforaethol ac AD), H. Eifion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid), Kenneth Hughes (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg) |

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD

Cynigwyd y Cynghorydd Jim Evans gan y Cadeirydd i wasanaethu yn lle’r Cyngorydd Peter Rogers ar y Bwrdd Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer. **Cymeradwywyd yr enwebiad gan y Pwyllgor.**

- Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod rhai newidiadau yn cael eu cynnig i Flaenraglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini yn dilyn cyfarfod y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2015 a hynny er mwyn hwyluso trefniadau sgriwtini ar gyfer cynigion cychwynnol Cyllideb 2016/17. Ymhelaethir ar y newidiadau a gynigir dan eitem 11 ar y rhaglen.
- Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at gyfweliad a gafodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn y diwrnod cynt gyda chynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o

Asesiad Cydnerthedd Ariannol a Chyllid Llywodraeth Leol a gynhelir gan SAC mewn perthynas â'r Awdurdod hwn.

- Cafwyd crynodeb gan y Cynghorydd Llinos Huws o'r busnes a gafodd sylw yng nghyfarfod y Bwrdd Prosiect Trawsnewid Addysg ar 9 Medi a oedd yn cynnwys y cynnydd gyda'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn ardaloedd Caergybi a'r Llannau; yr adolygiad Gateway a fydd yn digwydd ym mis Hydref 2015 a safonau ysgol a oedd yn fater a grybwyllwyd cyn cyhoeddi data perfformiad ysgolion 2014/15.

## 3 COFNODION CYFARFOD 6 GORFFENNAF, 2015

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2015 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 4 ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL (CYNLLUN GWELLA) 2014/15

Cyflwynwyd drafft o Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2014/15 i sylw'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad drafft yn gwerthuso'r canlyniadau a'r allbynnau yn erbyn amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer 2014/15 fel yr amlinellir hwy trwy'r saith maes allweddol yn Nogfen Gyflawni Flynyddol 2014/15.

Pan gyflwynwyd y ddogfen ddrafft gychwynnol i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2015 dywedodd Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol fod y Pwyllgor wedi nodi ar y pryd y byddai'n fuddiol pe bai'r ddogfen honno wedi cynnwys y canlyniadau yn erbyn dangosyddion perthnasol er mwyn medru asesu perfformiad y Cyngor trwy ddull mwy gwybodus ac ystyrlon. Er bod yr adroddiad bellach yn ymgorffori gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad a feincnodwyd yn erbyn awdurdodau eraill yng Nghymru, ac er bod y wybodaeth honno'n adlewyrchu gwelliant mewn perfformiad, mae'n seiliedig ar gyfrifiadau mewnol ac nid yw wedi'i gwirio gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi adolygu'r adroddiad drafft ac wedi cadarnhau ei fod yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol a'i fod yn adroddiad cytbwys sy'n cymryd i ystyriaeth y meysydd hynny y gellir eu gwella ymhellach yn ogystal â chyflawniadau.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r adroddiad a chyflwynodd y sylwadau a ganlyn arno –

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y ffaith fod y data perfformiad yn Nhabl 3 yr adroddiad yn dangos bod Ynys Môn yn ail yn y gynghrair o awdurdodau lleol yng Nghymru mewn perthynas â pherfformiad yn erbyn DP SCA/007 tra bod y naratif ar y dudalen honno yn cyfeirio at 4 DP yn y chwartel isaf. Dywedodd Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol nad yw'r naratif yn cyfeirio at Dabl 3 ond mewn ffordd sy'n gyson ag asesiad SAC o'r adroddiad fel un cytbwys, mae'n cyfeirio at feysydd lle mae'r perfformiad yn erbyn DP perthnasol wedi bod yn wan mewn perthynas â Gwasanaethau Oedolion ac mae'n amlygu hefyd fod perfformiad yn erbyn dau o'r DP hynny wedi gwella ac mae'n darparu esboniadau lliniarol yn achos y ddau arall. Er bod perfformiad Ynys Môn wedi gwella dygodd y Swyddog sylw penodol at y ffaith fod perfformiad awdurdodau eraill yng Nghymru wedi gwella mwy a bod hynny'n ffactor y mae angen ei gadw mewn cof wrth bennu targedau i'r dyfodol.
- Yng nghyd-destun hyrwyddo'r economi ymwelwyr, nododd y Pwyllgor y byddai unrhyw effaith yn sgil cau'r Ganolfan Groeso yn Llanfairpwll yn y flwyddyn ariannol hon yn cael ei gweld yn Adroddiad Perfformiad 2015/16 gan nodi y bydd yn dymuno sgriwtineiddio'r wybodaeth gymharol ar gyfer 2013/14, 2014/15 a 2015/16 ar yr amser priodol i asesu'n well effeithiau cau'r ganolfan.
- Mewn perthynas â sicrhau sgiliau ac adnoddau i foderneiddio isadeiledd er mwyn cefnogi ynni carbon isel nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw gadarnhad yn yr adroddiad o gamau a gymerwyd i gwrdd â'r amcan penodol hwnnw. Dywedodd Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol fod y Cynllun Corfforaethol yn ymwneud â chyfnod o 4 blynedd o 2013-2017

ac nad yw'n fwriad cyflawni pob un o'r dyheadau ynddo mewn un flwyddyn – cynlluniwyd i gyflawni rhai ohonynt yn hwyrach yn y cynllun sef yn 2015/16 a 2016/17.

- Mewn perthynas â thrawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn a'r weledigaeth ar gyfer darparu gofal i oedolion a hyrwyddir gan y nod hwn, nododd y Pwyllgor fod angen i'r Awdurdod fod yn glir y medr gynnal cyfleusterau priodol a digonol yn y cyfnod trosiannol wrth iddo geisio gostwng dibyniaeth ar ddarpariaeth breswyl draddodiadol a sefydlu gwasanaethau yn y gymuned. Roedd y Pwyllgor yn bryderus y gallai methiant i gynllunio ar gyfer y cyfnod trosiannol hwnnw beri risg, o bosib, i gyflawni'r weledigaeth gyffredinol.
- Mewn perthynas â gwella addysg, sgiliau a moderneiddio ysgolion, nododd y Pwyllgor y dirywiad yn y DP sy'n dangos canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyhoeddwyd cyn pen 26 wythnos, gan gynnwys eithriadau, a nododd hefyd mai'r eglurhad a roddwyd am hynny yw'r oedi o ran derbyn mewnbwn gan y Gwasanaeth Iechyd. Gofynnodd y Pwyllgor felly am eglurhad ar y gwahaniaeth yn safleoedd Gwynedd ac Ynys Môn yn y gynghrair ar gyfer y DP hwn gan fod Gwynedd yn perfformio'n well nag Ynys Môn er gwaethaf y ffaith fod y ddau gyngor yn dibynnu ar fewnbwn gan yr un Bwrdd Iechyd. Er mwyn nodi'n ganolog y camau cywiro y bydd angen eu cymryd nododd Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol bod gofyn cael trafodaethau pellach gyda'r Gwasanaeth Addysg sydd wedi dweud bod cyfraniadau hwyr gan y Gwasanaeth Iechyd yn ffactor.
- Nododd y Pwyllgor y gwahaniaeth sylweddol ym mherfformiad y Cyngor mewn perthynas â Gwasanaethau Plant DP SCC/033F (canran y bobl ifanc a fu gynt yn derbyn gofal ac y mae'r awdurdod mewn cyswllt â hwy ac yn gwybod eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn 19 oed) lle mae'n gyntaf yng Nghymru, a DP SCC/033d (canran y bobl ifanc a fu gynt yn derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cyswllt â hwy yn 19 oed) lle mae'r Cyngor yn olaf o'r 22 awdurdod yng Nghymru a gofynnodd am eglurhad am y gwahaniaeth hwn. Dywedodd Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol fod gwybodaeth a dderbynnir gan y gwasanaeth yn cael ei dwyn ynghyd i ddeall yn well y rhesymau am y dirywiad ym mherfformiad DP SCC/033d a'r camau sy'n cael eu cymryd i roi sylw i hynny. Fodd bynnag, mae ffigwr gwaelodlin ar gyfer rhai o'r DP yn isel sy'n golygu y gall amrywiaethau bychain arwain at newidiadau dramatig yn ein safleoedd yn y chwarteli ac mae hynny'n wir am DP SCC/033d.
- Nododd y Pwyllgor fod Cyngor Sir Benfro yn perfformio'n dda'n gyson fel y tystiolaethir gan y tablau perfformiad a holodd a oes unrhyw weithdrefnau ar gyfer rhannu arferion da ar draws Cymru. Dywedodd Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol fod yr awdurdodau yng Nghymru yn dysgu oddi wrth ei gilydd a bod grwpiau perfformiad ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol sy'n dadansoddi DP a'r perfformiad yn eu herbyn.

Dywedodd y Prif Weithredwr y gall canrannau fod yn gamarweiniol pan fo'r ffigyrau gwaelodlin yn isel yn y lle cyntaf ac y gall amrywiadau sylweddol ddigwydd o ganlyniad. Y dasg allweddol yw tynnu allan y wybodaeth berthnasol ac edrych ar y tueddiadau er mwyn herio gwasanaethau i wella perfformiad.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r canlyniadau a'r allbynnau o'r adroddiad Perfformiad ynghyd â materion a godwyd gan y Pwyllgor ar gyfer her a dadansoddiad pellach.**
- **Cytuno i gyhoeddi'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol am 2014/15 erbyn y dyddiad cau statudol ym mis Hydref a bod y Swyddogion yn ei gwblhau mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 5 MONITRO PERFFORMIAD - CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 1 2015/16

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Trawsnewid a oedd yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol sy'n dangos y sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 1 2015/16.

Codwyd y materion a ganlyn gan y Pwyllgor ar y wybodaeth a gyflwynwyd –

- Mewn perthynas â Rheoli Pobl, nododd y Pwyllgor gyda siom, er bod cyfraddau salwch yn gwella bob blwyddyn, fod sefyllfa'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 1 wedi dirywio o gymharu â llynedd a'i darged corfforaethol o 10 o ddyddiau am bob Gweithiwr Llawn Amser Cyfatebol. Un o'r prif ffactorau oedd yn cyfrannu at y methiant i gyflawni'r targed corfforaethol o 2.5 o ddyddiau ar gyfer Chwarter 1 oedd cyfraddau salwch tymor hir sydd wedi gwaethygu'n sylweddol o gymharu â Chwarter 1 2013 a 2014. Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn bwriadu sgriwtineiddio'r sefyllfa salwch yn fanylach yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer mis Tachwedd. Dywedodd Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol fod yr UDA a'r Penaethiaid wedi adnabod cyfraddau salwch tymor hir fel maes y mae angen rhoi sylw iddo i ddeall yn well y rhesymau am y dirywiad yn y perfformiad ac i benderfynu pa gamau y mae angen eu cymryd i wella'r sefyllfa gan gadw mewn cof bod angen trin staff sydd ar absenoldeb tymor hir ar sail achos wrth achos a rhoi pob cefnogaeth iddynt ddychwelyd i'r gwaith. Nododd y Pwyllgor hefyd fod angen sgriwtineiddio absenoldebau salwch yng nghyd-destun y meysydd gwasanaeth hynny lle maent yn cael yr effaith fwyaf.
- Nododd y Pwyllgor y gwelliant yng nghanran y Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a gynhaliwyd gan awgrymu ymhellach y byddai'n fuddiol iddo dderbyn data ynghylch nifer y cyfweliadau a gwblhawyd y tu allan i'r polisi corfforaethol o 5 diwrnod gwaith.
- Mewn perthynas â DP 23 o dan Rheoli Perfformiad (nifer y dyddiau calendr a gymerir ar gyfartaledd i osod llety - heb gynnwys Llety sy'n Anodd eu Gosod) a oedd yn dangos yn Goch, dywedodd y Rheolydd Gwasanaethau Technegol Tai fod sawl uned yn y Gwasanaethau Tai wedi bod trwy gyfnod o drawsnewid gan gynnwys yr Uned Gosod Tai. Dywedodd y Rheolydd Opsiynau Tai bod adolygiad yn cael ei gynnal o'r holl geisiadau am dai er mwyn ceisio cyfateb anghenion yr ymgeiswyr yn well gyda'r eiddo sydd ar gael i ostwng nifer y cynigion sy'n cael eu gwrthod a all gael effaith ar ddata perfformiad. Nododd y Pwyllgor y byddai data ynglŷn â nifer y gwrthodiadau cyn Chwarter 2 yn fuddiol i'w gynorthwyo i gymharu perfformiad ac i sefydlu a fu unrhyw welliant o ganlyniad i'r camau a gymerwyd. Nododd y Pwyllgor hefyd fod gan ymgeiswyr hawl i wrthod 3 chynnig cyn eu hatal oddi ar y rhestr dai a fedr arafu'r broses gosod tai. Pwysleisiodd y Pwyllgor y byddai cael gwybodaeth gywir gan yr ymgeiswyr ar eu ffurflenni ymgeisio o gymorth iddynt sicrhau o'r cychwyn cyntaf bod y llety a gynigir iddynt yn briodol ar gyfer eu hanghenion ac wrth eu bodd.
- Nododd y Pwyllgor y byddai sefydlu panel canlyniad sgriwtini ar gyfer Gosod Tai yn ychwanegu gwerth – gan roi sylw penodol i'r ffactorau hynny sy'n cael effaith ar broses gosod tai'r Awdurdod Lleol.
- Nododd y Pwyllgor fod DP Ll/18B – y ganran o ofalwyr oedolion a oedd wedi gofyn am asesiad neu adolygiad ac a oedd wedi cael asesiad neu adolygiad yn ystod y flwyddyn – yn parhau i fod o dan y targed a'i fod wedi bod yn dangos yn Goch am sawl chwarter yn olynol. Dywedodd Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol fod y tanberfformiad yn Ch1 i'w briodoli i ddiffyg capasiti staffio gyda 50% o'r tîm gofalwyr yn absennol o'u gwaith oherwydd salwch am 6 wythnos yn ystod y chwarter cyntaf. Nododd y Cadeirydd bod hwn yn faes arall lle'r oedd y Pwyllgor yn dymuno sefydlu panel canlyniad sgriwtini i gynnal archwiliad manylach o'r rhesymau sydd wrth wraidd y tanberfformio.
- Nododd y Pwyllgor ymhellach fod sawl DP Rheolaeth Ariannol yn dangos yn Goch yn Chwarter 1 a bod yr UDA a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol trwy ei Banel Canlyniad Sgriwtini Arbedion Effeithlonrwydd yn monitro'r materion ariannol hynny.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel y dangosir yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1 2015/16.**
- **Nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dim Arweinyddiaeth yn llwyddo i'w gwella i'r dyfodol fel yr amlinellir ym mharagraff 1.3 yr adroddiad ynghyd â'r camau lliniaru a nodwyd.**

**CAMAU GWEITHREDU YN CODI: Rheolydd Sgriwtini Dros Dro i gydlynu sefydlu'r ddau banel canlyniad sgriwtini ychwanegol y cyfeirir atynt uchod yn y Flwyddyn Newydd.**

## 6 MONITRO'R GYLLIDEB - Y GYLLIDEB GYFALAF CHWARTER 1 2015/16

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro a oedd yn amlinellu perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol 2015/16.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod y sefyllfa wedi gwella mewn perthynas â derbyniadau cyfalaf a'u bod yn £927k ar hyn o bryd. Y targed yn y gyllideb ar gyfer derbyniadau cyfalaf am y flwyddyn oedd £4.646m; mae cwrdd â'r targed yn bwysig o ran ceisio rheoli a gostwng rhwymedigaethau benthyca'r Awdurdod. Mewn perthynas â'r ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi, mae'r costau prosiect diwygiedig o £10.352m yn dangos cynnydd o £1.942m yn y gost yn erbyn cyllideb o £8.410m a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Cafwyd ar ddeall y bydd Llywodraeth Cymru yn cyllido 50% o'r cynnydd sy'n golygu y bydd angen i'r Awdurdod gwrdd â'r costau £1m ychwanegol eraill ar gyfer y prosiect hwn.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Pwyllgor fod gohebiaeth wedi ei derbyn sy'n cadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn cyllido 50% o'r costau ychwanegol ar y prosiect.

Rhoes y Pwyllgor sylw i'r wybodaeth a gyflwynwyd gan nodi'r prosiectau mwyaf arwyddocaol o ran y risg fel yr amlinellwyd nhw ym mharagraff 2.3.21 yr adroddiad fel rhai yr ystyrir bod angen eu monitro'n ofalus, gyda chyfeiriad arbennig at y cyllid grant dan Raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid y Llywodraeth sydd, oherwydd y modd y caiff y rhan fwyaf o'r gwariant dan y grant ei broffilio ar gyfer Chwarter 4, mewn perygl mawr o golli arian oni fydd modd ei wario'n llawn yn ystod y chwarter olaf.

Dywedodd y Cadeirydd fod Panel Canlyniad Sgriwtini'r Pwyllgor ar Reoli Asedau yn edrych, ymysg pethau eraill, ar y rhaglen gwella mân-ddaliadau ac y bydd yn cyflwyno adroddiad ym mis Chwefror 2016.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 7 MONITRO'R GYLLIDEB - Y GYLLIDEB REFENIW CHWARTER 1 2015/6

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer chwarter cyntaf 2015/16 a'r sefyllfa a ragamcenir am y flwyddyn gyfan gan gynnwys ffynonellau'r prif wahaniaethau.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer cyllid mai'r sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcenir ar gyfer 2015/16 yw gorwariant o £1,62m sef 1.3% o gyllideb net y Cyngor am 2015/16.

Fodd bynnag, mewn canlyniad sy'n adlewyrchu chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol flaenorol, nid yw'r ffigyrau ar gyfer Chwarter 1 2015/16 o angenrheidrwydd yn arwydd o unrhyw batrwm ac mae modd adfer y sefyllfa. Ceir gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol a'r rhagolygon ar draws y Cyngor o'r adroddiad canol blwyddyn a gyhoeddir ym mis Tachwedd ac er ystyrir y byddai'n gynamserol i gymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd, bydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn monitro'r sefyllfa'n rheolaidd ac yn cymryd camau adfer yn ôl yr angen. Mae rhai o'r cyllidebau gwasanaeth yn rhai sy'n dibynnu ar y galw am y gwasanaeth sy'n ei gwneud yn anos i ddarparu rhagamcanion ystyrlon.

Nododd y Pwyllgor y sefyllfa a'i bod yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Cyfeiriwyd hefyd at y gorwariant o £50k ar Gwrs Golff Llangefni oherwydd nad yw wedi cwrdd â'r targedau o ran incwm a phwysleisiwyd bod angen dwyn sylw at hyn yn y gymuned wrth i'r Awdurdod geisio trosglwyddo asedau i'r gymuned a thrydydd partïon.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 8 CYNLLUN YMGYNGHORI: CYLLIDEB 2016/17

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor – adroddiad y Pennaeth Trawsnewid yn cynnwys y Cynllun Ymgynghori ar Gyllideb 2016/17 i'w weithredu yn ystod y cyfnod rhwng 19 Hydref a 31 Rhagfyr, 2015.

Dywedodd Rheolydd y Rhaglen Gorfforaethol bod y cynllun yn ceisio sicrhau'r cyfranogiad a'r atborth mwyaf posibl o'r broses o ymgynghori ar y gyllideb ac, yn arbennig felly, i ymgysylltu gyda phobl ifanc yr ynys yn ystod y broses drwy ddefnyddio amryfal ddulliau gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, bod y broses o ymgynghori ar y gyllideb yn hanesyddol wedi canolbwyntio ar y cynigion ar gyfer arbedion a'r modd y byddai'r rheiny'n cael effaith ar y ddarpariaeth o wasanaethau; fodd bynnag, mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng yr arbedion ar y naill law a'r cynigion ar gyfer y Dreth Gyngor ar y llall gan geisio hefyd gael sylwadau'r dinasyddion ar y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor, sydd, ar gyfradd o 4.5%, yn sylweddol uwch na chwyddiant.

**Penderfynwyd derbyn a chefnogi'r Cynllun Ymgynghori ar gyfer Cyllideb 2016/17 fel y caiff ei amlinellu yn Atodiad A yr adroddiad.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 9 MODERNEIDDIO YSGOLION - YMGYNGHORIAD FFURFIOL ARDALOEDD BRO RHOSYR A BRO ABERFFRAW

Rhoes y Pennaeth Dysgu i'r Pwyllgor grynodeb o ymateb y cydranddeiliaid i'r ymgynghoriad ffurfiol a'r materion allweddol a oedd yn codi.

Rhoddwyd i'r Canon Robert Townsend, cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru ar y Pwyllgor Sgriwtini ar gyfer materion addysgol, y cyfle i ymhelaethu ar yr ystyriaethau a gyfrannodd at lunio'r farn y daeth Adran Addysg Esgobaeth Bangor iddi fel y'i nodir yn adran 11 yr Adroddiad ar yr Ymateb i'r Ymgynghoriad.

Rhoes y Pwyllgor sylw gofalus i'r wybodaeth a gyflwynwyd ac yn y drafodaeth ddilynol, codwyd y materion isod –

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch yr hyn yr oedd statws yr ysgol newydd arfaethedig fel Ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru yn ei olygu o ran rheolaeth, cymeriad ac arferion dydd i ddydd. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod statws rheolaeth wirfoddol yn golygu bod yr Eglwys, ar adeg sefydlu'r ysgol yn wreiddiol, yn rhan o'r ysgol a dyna pam mae'r ysgol yn bodoli. O'r herwydd, mae'r Esgobaeth yn gweithredu fel ymddiriedolwr ar gyfer rhan o'r safle ac mae ganddi'r hawl i benodi chwarter o aelodau'r Corff Llywodraethu. Disgwylir i'r ysgol fod ag ethos Cristnogol a gweithred ddyddiol o addoliad yn unol â thraddodiad Cristnogol. Disgwylir hefyd i'r Pennaeth, fel rhan o'i rôl, hyrwyddo cymeriad Cristnogol yr ysgol. Caiff cymeriad Cristnogol ac agweddau addoli ar y cyd ysgol yr Eglwys yng Nghymru eu harolygu gan yr Eglwys yn hytrach nag Estyn.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y materion cyfreithiol sy'n codi yn sgil cau Canolfan Gymunedol Bodorgan a'r effaith bosibl ar y rhaglen foderneiddio a'r cynllun busnes yn Ne Orllewin Ynys Môn oni fedr y Cyngor werthu'r cyfleuster hwn. Oni fydd y ganolfan gymunedol yn cael ei gwerthu, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n rhaid ffactora hynny i mewn i'r Cynllun Busnes. Fodd bynnag, roedd ef yn hyderus y gellir datrys y materion cyfreithiol.
- Roedd y Pwyllgor, tra'n cydnabod bod yr ymgynghoriad anffurfiol yn drwyadl ac yn gynhwysol, o'r farn bod yr ymgynghoriad ffurfiol yn llai boddhaol er ei fod yn cydnabod fod y broses statudol wedi ei llesteirio gan yr hyn a bennir yn y gyfraith. Awgrymodd y Pwyllgor nad oedd statws Eglwys yr ysgol newydd arfaethedig yn agwedd a oedd wedi ei chyfleu mor glir ag y gellid yn yr adroddiad.
- Gofynnodd y Pwyllgor a ymgynghorwyd yn ddigonol gyda chydranddeiliaid yn Nwyran, Bodorgan a Niwbwrch ar statws Eglwys yr ysgol newydd ac a oedd rhieni yn y cymunedau hynny'n gwerthfawrogi'n llawn yr hyn yr oedd hynny'n ei olygu. Cafwyd cynnig i ymgynghori ymhellach gyda'r cymunedau hyn ynghylch statws yr ysgol newydd cyn gwneud unrhyw argymhelliad penodol. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr holl ysgolion a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad wedi cael yr un cyflwyniad dan arweiniad y Swyddogion Addysg ar sail yr opsiynau a amlinellir yn nhabl 6.2 yr adroddiad sy'n glir ynghylch statws yr ysgol newydd. Mae'r dull a'r broses wedi bod yn gyson drwyddi draw.

Yn y bleidlais a gafwyd wedyn ar y mater hwn, ni chafodd y cynnig i ohirio gwneud penderfyniad er mwyn cynnal trafodaethau pellach ei gario.

- Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad ynghylch nifer y disgyblion y byddai'n rhaid eu cofrestru yn Ysgol Brynsiencyn i sicrhau ei dichonoldeb. Eglurodd y Pennaeth Dysgu fod rheoliad statudol ynghlwm â'r broses pan fydd nifer y disgyblion mewn ysgolion yn llai na 9.

**Yn dilyn trafodaeth faith, penderfynwyd argymell Opsiwn Option B4a i'r Pwyllgor Gwaith fel yr opsiwn y mae'r Pwyllgor yn ei ffafrio ar gyfer ad-drefnu ysgolion yn ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw. (Ni wnaeth y Cynghorwyr Ann Griffith, Lewis Davies a R.Meirion Jones bleidleisio ar y mater).**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 10 PANELAU CANLYNIAD SGRIWTINI: DATGANIAD O'R SEFYLLFA

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor – adroddiad y Rheolydd Sgriwtini Dros Dro mewn perthynas â'r Panelau Canlyniad Sgriwtini cyfredol. Yn yr adroddiad, cafwyd diweddariad ar gynnydd a statws y Panelau Canlyniad Sgriwtini a sefydlwyd gan y Pwyllgor hwn – 7 ohonynt ar hyn o bryd (Atodiad 1) a rhoes amlinelliad o'r modd y mae'r Awdurdod yn bwriadu cryfhau ymhellach y berthynas rhwng y swyddogaeth Sgriwtini a blaenoriaethau strategol y Cyngor.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r sefyllfa gyfredol ynghylch gwaith y saith Panel Canlyniad Sgriwtini.**
- **Cefnogi ymdrechion y Swyddogion i gyflwyno adroddiadau diweddaru chwarterol ar waith y Panelau Canlyniad Sgriwtini i'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, y Gweithgor Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.**
- **Cryfhau ymhellach y cysylltiad a'r aliniad rhwng y Swyddogaeth Sgriwtini a blaenoriaethau strategol y Cyngor fel y nodir hynny yn Rhan 4 yr adroddiad.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**11 BLAEN RHAGLEN WAITH 2014-15**

Cyflwynwyd er ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor - adroddiad y Rheolydd Sgriwtini Dros Dro yn cynnwys Blaenraglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Ebrill, 2016.

Dywedodd y Rheolydd Sgriwtini Dros Dro y bwriedir, gyda chaniatâd y Pwyllgor, wneud y newidiadau a ganlyn i'r Rhaglen Waith er mwyn sicrhau yn bennaf oll eu bod yn cyd-fynd a'r broses o ymgynghori ar y Gyllideb ar gyfer 2016/17 a'i chymeradwyo:

- Y bydd y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor sydd wedi ei drefnu ar gyfer 16 Tachwedd yn canolbwyntio ar drafod y cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb yn codi o'r pedwar gweithdy cyllideb a gynhaliwyd yn ystod Medi a Hydref.
- Bod busnes arferol y Pwyllgor a oedd i'w drafod yn y cyfarfod ar 16 Tachwedd yn cael ei aildrefnu, gyda chaniatâd y Cadeirydd, i gyfarfod a gynhelir ar 1 Rhagfyr 2015.
- Bod y cyfarfod o'r Pwyllgor a oedd wedi ei ddynodi fel cyfarfod i drafod y gyllideb ar 11 Ionawr 2016 yn cael ei ddileu.
- Y bydd Cyllideb 2016/17 yn cael ei thrafod eto yn y cyfarfod o'r Pwyllgor sydd wedi ei drefnu ar gyfer 1 Chwefror 2016 a hynny cyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynigion terfynol ar gyfer y Gyllideb ar 16 Chwefror yn barod i'w cyflwyno i'r Cyngor Sir ar ddiwedd mis Chwefror.

Dywedodd y Swyddog nad yw penderfyniad wedi cael ei wneud hyd yma ynglŷn â'r modd y bydd y baich gwaith yn cael ei rannu rhwng y ddau bwyllgor sgriwtini. Fodd bynnag, bydd newidiadau arfaethedig i gylch gorchwyl y pwyllgorau i ganiatáu trosglwyddo gwaith rhwng y ddau bwyllgor i ymateb i bwysau gwaith yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Sir ar 29 Medi.

**Penderfynwyd derbyn y newidiadau i'r Flaenraglen Waith fel y cawsant eu hamlinellu.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolydd Sgriwtini Dros Dro i ddiweddaru'r Flaenraglen Waith yn unol â'r manylion.**

**Cynghorydd R. Meirion Jones**
**Cadeirydd**